

BYDDWCH YN RHAN O YMCHWIL YNGHYLCH GENYNNAU

Eich canllaw i roi sampl poer

Ychwanegu gwybodaeth am eich genynnau chi a genynnau eich babi

Hoffem ychwanegu gwybodaeth enetig amdanoch chi a'ch babi i helpu i ddeall sut mae genynnau'n dylanwadu ar fywydau pobl, a sut mae genynnau a'r amgylcheddau y mae pobl yn eu profi yn gweithio gyda'i gilydd. Bydd casglu gwybodaeth enetig ar ddechrau'r astudiaeth yn galluogi mewnwelediadau gwyddonol newydd i iechyd a datblygiad plant yn y blynyddoedd cynnar.

Byddwn yn gofyn i rieni biolegol ddarparu sampl poer a chymryd swab poer o geg eu babi a fydd yn cael ei ddefnyddio i echdynnu DNA. Fel diolch, byddwn yn darparu taleb ychwanegol o £5 am eich sampl chi a £5 arall am sampl eich babi.

Beth yw genynnau a DNA? Pam ei bod yn bwysig i'w hastudio?

DNA yw'r wybodaeth enetig y tu mewn i gelloedd y corff sy'n helpu i wneud pobl pwy ydyn nhw. Mae genynnau yn cynnwys darnau o DNA, a dyma'r ffordd fiolegol y mae plant yn etifeddu nodweddion gan eu rhieni.

Mae gwyddonwyr wedi defnyddio gwybodaeth enetig a gasglwyd yn ddiweddarach mewn bywyd mewn astudiaethau tebyg i ddatblygu triniaethau newydd ar gyfer cyflyrau cyffredin fel diabetes, anhwylderau seicolegol a chlefydau llidiol.

Pam ei bod yn bwysig ychwanegu gwybodaeth am eich genynnau chi a genynnau eich babi?

Bydd ychwanegu gwybodaeth enetig gan famau a thadau biolegol, yn ogystal â'u babanod, yn caniatáu i ymchwilyr ddeall pa enynnau sy'n cael eu pasio o riant i blentyn, a sut y gall genynnau rhieni ddylanwadu ar fywydau eu plant yn ogystal â'u bywydau eu hunain.

Oes rhaid i chi a'ch babi roi sampl poer?

Chi sydd i benderfynu a ydych am roi'r samplau hyn, ac os nad ydych am wneud hyn gallwch barhau i gymryd rhan yn yr astudiaeth.

Byddwn yn gofyn i'r rhiant sy'n gwneud y cyfweiliad hirach i roi caniatâd ar gyfer sampl eu babi. Efallai yr hoffech drafod y penderfyniad hwn gyda rhiant arall eich plentyn.

Sut mae'r samplau poer yn cael eu rhoi?

Byddwn yn gofyn i chi gymryd sampl poer eich babi trwy frwsio swab ceg arbennig ar eu deintgig. Mae'n syml i'w wneud, nid yw'n brifo, ac fel arfer mae'n cymryd llai na munud.

Rhoddir eich sampl eich hun trwy boeri i mewn i diwb bach.

Bydd y cyfwelydd yn esbonio'r broses ac yn rhoi'r pecynnau casglu poer gyda chyfarwyddiadau. Yn ddelfrydol, hoffem i chi gasglu'r samplau tra bod y cyfwelydd yn bresennol. Fel arall, gellir ei adael gyda chi i wneud ryw dro eto.

Ni ddylech fwyta, yfed, ysmegu na chnoi gwm yn y 30 munud cyn rhoi'r sampl. Bydd y broses gyfan yn cymryd tua 5 munud ar gyfer pob sampl.

Bydd y broses gyfan yn cymryd tua **5 munud ar gyfer pob sampl.**

Sganiwch y cod QR isod neu ewch i gnestudy.info/saliva i ddarganfod mwy am roi eich sampl.



Beth fydd yn digwydd i'r samplau poer?

Bydd y samplau poer yn cael eu hanfon i labordy ymchwil Prifysgol Bryste sydd wedi'i drwyddedu gan yr Awdurdod Meinweoedd Dynol. **Ni fydd enw na chyfeiriad eich teulu yn cael eu hatodi i'r sampl poer.** Bydd sampl o DNA yn cael ei echdynnu a'i storio'n ddiogel ac yn ddiennw ar gyfer ymchwil ynghylch genynnau yn y dyfodol. Bydd y samplau poer yn cael eu dinistrio unwaith y bydd y sampl DNA wedi'i echdynnu.

Ar gyfer beth fydd y samplau DNA yn cael eu defnyddio?

Dim ond ar gyfer dibenion ymchwil y defnyddir y samplau DNA. Bydd angen i ymchwilwyr cymwys gael caniatâd gan bwyllgor arbennig sydd ag arbenigedd mewn geneteg ac mewn goruchwyllo a diogelu mynediad at y samplau. Dim ond os bydd eu hymchwil o fudd i'r cyhoedd y byddant yn cael caniatâd. Bydd ymchwilwyr o sefydliadau masnachol fel arfer yn partneru â sefydliadau cyhoeddus (e.e. y GIG neu brifysgolion) ac eithrio o dan amgylchiadau o fudd cyhoeddus eithriadol posibl.

Bydd y samplau DNA yn cael eu trin yn gwbl gyfrinachol yn unol â'r Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol (GDPR), ac ni fydd gan unrhyw ymchwilwyr sy'n defnyddio'r samplau fynediad at enw na chyfeiriad eich teulu nac unrhyw fanylion personol eraill a allai adnabod unigolion yn yr astudiaeth yn uniongyrchol.

Ni fydd y samplau DNA byth yn cael eu defnyddio ar gyfer profion tadolaeth neu glonio dynol. Ni fydd eich DNA byth yn cael ei roi i gyfreithwyr neu gwmnïau yswiriant. Ni fyddwn yn gwerthu nac yn gwneud unrhyw elw o'r samplau a roddwch.

Ni fyddwn yn bwydo unrhyw wybodaeth enetig yn ôl i chi yn unigol gan fod y profion a wneir ar y samplau ar gyfer ymchwil ac ni ellir eu defnyddio i wneud diagnosis o gyflyrau meddygol. Os oes gennych unrhyw bryderon am gyflyrau genetig, byddem yn eich cynghori i siarad â gweithiwr meddygol proffesiynol.

Gallwch newid eich meddwl ynglŷn â chaniatáu i'ch DNA chi neu eich plentyn gael ei ddefnyddio ar unrhyw adeg heb roi unrhyw resymau. Pan fydd eich plentyn yn oedolyn, gallant hefyd ddewis tynnu eu caniatâd yn ôl.

I newid eich caniatâd ar ôl y cyfweiliad, ysgrifennwch atom yn **Rhadbost GENERATION NEW ERA** neu gnestudy@ucl.ac.uk.

Oes gennych chi unrhyw gwestiynau am roi sampl poer?

Ceir rhagor o wybodaeth ym mhrif lyfryn yr astudiaeth ac ar wefan yr astudiaeth www.gnestudy.info/saliva.

Gallwch hefyd e-bostio neu ffonio'r tîm Generation New Era: gnestudy@ipsos.com neu Rhadffôn 0800 151 0610.